Comisiynydd Heddlu a Throseddu
Dyfed-Powys
Police and Crime Commissioner

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Gymraeg yn ogystal â Saesneg.

This document is available in Welsh as well as English.

COMISIYNYDD HEDDLU A THROSEDDU DYFED-POWYS POLICE AND CRIME COMMISSIONER

**Cyfarfod:** **Bwrdd Plismona**
**Lleoliad:** **Ystafell Gynadledda SCHTh**
**Dyddiad:** **27 Ebrill 2016**
**Amser:** **10:00 – 10:30**

Heddlu•Police DYFED-POWYS
Diogelu ein Cymuned – Safeguarding our Community

| | |
|---|---|
| **Aelodau:** | Mr Tim Burton, Dirprwy Gomisiynydd yr Heddlu a Throseddu (DGHTh)<br>Dirprwy Brif Gwnstabl Dros Dro Liane James (DBG)<br>Mrs Jayne Woods, Prif Swyddog Ariannol (PSA)<br>Mr Adrian Williams, Cyfarwyddwr Adnoddau (CA) |
| **Hefyd yn bresennol:** | Mrs Carys Morgans, Pennaeth Staff, SCHTh (CM)<br>Arolygydd Mark McSweeney, Swyddog Staff (MMS)<br>Mrs Claire Bryant, Rheolwr Swyddfa, SCHTh (CB) |
| **Ymddiheuriadau:** | Mr Christopher Salmon, Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu (CHTh)<br>Prif Gwnstabl Simon Prince QPM (CC) |

| **CRYNODEB O'R CAMAU GWEITHREDU O GYFARFOD 06/04/16** | | |
|---|---|---|
| **Rhif Cam Gweithredu** | **Crynodeb** | **Cynnydd** |
| **PB 589** | **MMS i anfon eglurhad at y DGHTh ar y cofnodion sydd angen ar ôl cadw o dan adran 136 o'r Ddeddf Iechyd Meddwl** | **Cwblhawyd** |
| **PB 590** | **SCHTh i ymateb i bryderon a godwyd mewn perthynas â Chanol Tref y Trallwng** | **Cwblhawyd** |
| **PB 591** | **MMS i roi crynodeb i'r DGHTh o'r ymateb a gyflwynwyd i'r Police Oracle mewn perthynas â diwrnodau i ffwrdd sydd wedi'u canslo** | **Cwblhawyd** |

**Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 6 Ebrill a materion yn codi**

Cytunwyd bod y cofnodion yn gofnod gwir a chywir.

Eglurodd y DGTH bod datganiad i'r wasg diweddar gan Gyngor Tref y Trallwng yn nodi bod y CHTh yn cefnogi cais y Cyngor Tref am Orchymyn Diogelu Mannau Cyhoeddus. Ni wnaeth y CHTh y datganiad hwn ac nid oedd yn cefnogi'r cais, ond mae'n cefnogi'r heddlu wrth iddynt benderfynu ar y canlyniad. Dywedodd MMS y byddai cynrychiolwyr o'r Heddlu'n mynychu cyfarfod â'r Cyngor Tref ar 27 Ebrill. Gofynnodd CM am gadarnhau safbwynt y CHTh ar y mater yn y cyfarfod. Cytunodd DGHTh i anfon gohebiaeth gefnogol MMS i gefnogi swyddogion sy'n bresennol.

**Cam Gweithredu: DGHTh i anfon gohebiaeth MMS mewn perthynas â safbwynt y CHTh o ran cais Cyngor Tref y Trallwng am Orchymyn Diogelu Mannau Cyhoeddus**

**Diweddariad y Dirprwy Brif Gwnstabl Dros Dro**

Dywedodd y DBG bod 4 swyddog dal wedi'u gwahardd o'r gwaith. Roedd dau wedi dychwelyd i'r gwaith ar ôl i'r llysoedd canfod o'u plaid bod y grym a ddefnyddiwyd yn erbyn aelod o'r cyhoedd yn briodol.

Rhoddodd y DBG drosolwg o'r prif ddigwyddiadau gweithredol, gan gynnwys marwolaeth person oedrannus ar sgwter symudedd, gweithgarwch Ymgyrch Darwen a arweiniodd at 51 cerbyd yn cael eu riportio am oryrru, ac arestio deiliaid car a oedd yn teithio allan o HDP ac yn dychwelyd â swm o heroin, cerdyn credyd wedi'i ddwyn a disel coch.

Roedd unigolyn o Fwlgaria wedi'i gadw ym Mhorthladd Abergwaun ar ôl ceisio dod yn ôl i'r wlad drwy Rosslare pan oedd gwarant am fethu ag ymddangos ar ei gyfer yn Llundain. Nodwyd bod angen sylw pellach ar y mater.

Cynhaliwyd gweithgarwch Ymgyrch Masnachwyr Ffug rhwng 11 a 15 Ebrill mewn partneriaeth â Safonau Masnach, Asiantaeth yr Amgylchedd, Llu'r Ffiniau a BT. Ymwelwyd â 1438 o gartrefi a rhoddwyd cyngor atal trosedd mewn perthynas â galwyr diwahoddiad a byrgleriaethau tynnu sylw. Dosbarthwyd 2300 taflen ac ailymwelwyd â 6 dioddefydd mynych.

**Diweddariad Dirprwy Gomisiynydd yr Heddlu a Throseddu**

Trafododd DGHTh bryderon a godwyd yn ystod diwrnod Eich Llais diweddar CHTh yn y Trallwng, gan gynnwys pryderon sŵn ac ymddygiad gwrthgymdeithasol yn Llanfyllin a goryrru ar y brif ffordd osgoi o gwmpas Llanidloes. Roedd DGHTh wedi derbyn gohebiaeth gan grŵp cymunedol yn tynnu sylw at eu pryderon, ac roedd wedi ymateb gan nodi y byddai'r mater yn cael ei ddwyn i sylw'r Comisiynydd ar ôl yr etholiadau.

**Cam Gweithredu: DGHTh i rannu gohebiaeth gan gymuned Llanidloes mewn perthynas â phryderon goryrru er mwyn codi'r mater hwn yn nhymor nesaf y CHTh mewn swydd**

**Diweddariad y Prif Swyddog Ariannol**

Rhoddodd y PSA drosolwg o wybodaeth a dderbyniwyd mewn cynhadledd ddiweddar. Disgwylir manylion pellach ar gyfer y fformiwla ariannu ar ôl yr etholiad, ond roedd arwyddion y gallai fformiwla newydd fod mewn grym ar gyfer 2018/19. Efallai bydd angen dod â gwaith y Bwrdd Diwygio'r Heddlu a Thrawsnewid i ben cyn cytuno ar fformiwla newydd. Dosbarthwyd modelu costau ar gyfer Rhaglen Cyfathrebu Symudol y Gwasanaethau Brys ar gyfer ystyriaeth y CC a'r PSA.

Nododd y PSA fod Pick Everard yn llwyddiannus o ran derbyn y cytundeb ar gyfer gwasanaethau ymgynghori ar gyfer y fanyleb ystadau manwl, â chytundeb gwerth £337,000 yn cael ei arwyddo heddiw.

Dywedodd DGHTh ei fod wedi codi pryderon yn flaenorol mewn perthynas â diffygion o ran gwasanaeth rhwydwaith drwy Raglen Cyfathrebu Symudol y Gwasanaethau Brys. Roedd y PSA ar ddeall mai'r cynnig cyfredol oedd y byddai darpariaeth gyfatebol, ond roedd pryderon nad oedd y ddarpariaeth gyfredol yn foddhaol bob tro. Cytunwyd y byddai'r mater yn cael ei godi yn nhymor nesaf y CHTh mewn swydd.

**Cam Gweithredu: Codi pryderon ynghylch darpariaeth Rhaglen Cyfathrebu Symudol y Gwasanaethau Brys yn nhymor nesaf y CHTh mewn swydd**

## Diweddariad y Cyfarwyddwr Adnoddau

Dywedodd y CA bod grŵp monitro'r Uned Cymorth Busnes (UCB) wedi cyfarfod wythnos diwethaf, gydag adroddiadau cadarnhaol yn cael eu derbyn o ran perfformiad yr UCB. Roedd y PSA a Rheolwr Perfformiad SCHTh yn bresennol. Byddai'r grŵp dal yn cwrdd ar sail chwarterol.

Roedd paratoadau cynhwysfawr ar gyfer ymweliad AHEM a oedd yn cychwyn ar 23 Mai ar waith. Mynegodd DGHTh ei bryder nad oedd penawdau am adroddiadau diweddar AHEM yn adlewyrchu'r gwirionedd. Sicrhawyd y DBG bod paratoadau'n ddigonol. Dywedodd CM y byddai Rheolwr Perfformiad ac Ymgynghorydd Gwasanaeth Cwsmeriaid yn rhan o grwpiau ffocws fel rhan o'r archwiliad.

Rhannodd y CA ddiweddariad ar gydymffurfiaeth Ystadau, a oedd wedi'i asesu'n annibynnol gan Uwch Reolwr Iechyd, Diogelwch a Chynaliadwyedd. Ystyriwyd bod cydymffurfiaeth o 85%, sy'n welliant sylweddol o'i gymharu â 31% ddwy flynedd yn ôl. Llongyfarchodd DGHTh bawb a oedd yn gysylltiedig. Cadarnhawyd bod y ddogfen wedi'i rhannau â'r Cyfarwyddwr Ystadau ar gyfer adolygu.

## Diweddariadau

### *Monitro data o ran defnydd o'r hofrennydd*

Cyflwynodd y DBG yr adroddiad o geisiadau mis diwethaf, gan ddweud bod yr ystadegau'n cael eu hadolygu'n wythnosol gan y Grŵp Prif Swyddogion. Mynegodd DGHTh nifer o bryderon; y modd yr oedd ceisiadau'n cael eu cofnodi gan y Gwasanaeth Heddlu Awyr Cenedlaethol, sut yr oedd tasgau wedi'u trefnu ymlaen llaw'n cael eu blaenoriaethu a'r amser a gymerir i leoli ar ôl derbyn cais. Cytunwyd y byddai'r mater yn cael ei godi yn ystod tymor newydd y CHTh mewn swydd.

Holodd y PSA os oedd model talu newydd wedi'i gychwyn o 1 Ebrill. Dywedodd y DGHTh bod hyn wedi'i drafod mewn cyfarfod diweddar o'r bwrdd Gwasanaeth Heddlu Awyr Cenedlaethol, ac y byddai'n rhannu'r cofnodion perthnasol â'r PSA.

**Cam Gweithredu: CHTh a'r PG i adolygu'r gwasanaeth a dderbynnir gan y Gwasanaeth Heddlu Awyr Cenedlaethol yn ystod tymor newydd y CHTh mewn swydd**

**Cam Gweithredu: DGHTh i roi cofnodion y bwrdd Gwasanaeth Heddlu Awyr Cenedlaethol perthnasol i'r PSA mewn perthynas â'r model talu ar gyfer 2016/17**

***Camau Gweithredu sy'n Weddill o ran y Bwrdd Plismona a Bwrdd Atebolrwydd yr Heddlu***

Rhoddwyd crynodeb i'r aelodau o gamau gweithredu sy'n weddill o'r ddau gyfarfod, er gwybodaeth. Diolchodd CM CB ac MMS am eu gwaith o ran sicrhau bod y camau gweithredu'n derbyn sylw. Roedd CM wedi gofyn am i'r holl gamau gweithredu gael eu cwblhau o fewn tymor cyfredol y CHTh mewn swydd, cyn belled â phosibl. Roedd CB ac MMS yn hyderus fod y camau gweithredu sy'n weddill ar waith, ac y dylent gael eu cwblhau erbyn diwedd y tymor.

Nododd DGHTh werthfawrogiad y CHTh am y gwaith caled a wnaed i sefydlu'r model o ran Byrddau Plismona wythnosol a Byrddau Atebolrwydd yr Heddlu Misol. Diolchodd y DGHTh i bawb a oedd yn gysylltiedig hefyd.

Daeth DGHTh â'r cyfarfod i ben drwy ddweud y bu'n fraint ac anrhydedd cymryd rhan dros y 3 blynedd diwethaf, a'i fod yn hyderus y byddai'r gwaith da'n parhau.

| CRYNODEB O'R CAMAU GWEITHREDU O GYFARFOD 27/04/16 | | |
|---|---|---|
| **Rhif Cam Gweithredu** | **Crynodeb o'r Cam Gweithredu** | **I'w symud yn ei flaen gan** |
| **PB 592** | **DGHTh i anfon gohebiaeth MMS mewn perthynas â safbwynt y CHTh o ran cais Cyngor Tref y Trallwng am Orchymyn Diogelu Mannau Cyhoeddus** | **DGHTh** |
| **PB 593** | **DGHTh i rannu gohebiaeth gan gymuned Llanidloes mewn perthynas â phryderon goryrru er mwyn codi'r mater hwn yn nhymor nesaf y CHTh mewn swydd** | **DGHTh** |
| **PB 594** | **Codi pryderon ynghylch darpariaeth Rhaglen Cyfathrebu Symudol y Gwasanaethau Brys yn nhymor nesaf y CHTh mewn swydd** | **CM** |

| | | |
|---|---|---|
| **PB 595** | **CHTh a'r PG i adolygu'r gwasanaeth a dderbynnir gan y Gwasanaeth Heddlu Awyr Cenedlaethol yn ystod tymor newydd y CHTh mewn swydd** | **CM** |
| **PB 596** | **DGHTh i roi cofnodion y bwrdd Gwasanaeth Heddlu Awyr Cenedlaethol perthnasol i'r PSA mewn perthynas â'r model talu ar gyfer 2016/17** | **DGHTh** |